

PARHEWCH I GEISIO TEYRNAS DDUW

Nodyn i'r siaradwr:

Meithrinwch werthfawrogiad dwfn o'r cyngor yn y Bregeth ar y Mynydd lle dangosodd Iesu sut i geisio'r Deyrnas. Rhaid inni wrando ar y geiriau doeth hyn a gwneud ymdrech i ennill y Deyrnas

MAE HI'N BWYSIG GWERTHFAWROGI BRENHINIAETH JEHOFAH (6 mun.)

Mae pobl ymhob man yn dyheu am deyrnasu cyflawn, llywodraeth fedr yn wirioneddol ddatrys eu problemau Mae problemau sicrhau gwaith, sicrhau bwyd digonol, amddiffyn ein hamgylchedd, dileu afiechyd, a goresgyn rhwystrau sy'n gwahanu'r ddynoliaeth yn gofyn am ddatrys sydd y tu hwnt i allu dyn i'w gynnig (Preg 1:15)

Mae'r ateb gan ein Creawdwr, Jehofah Dduw, a'i Deyrnas (*w85 11/15 3-5*)

Rhaid inni ddirnad ehangder a natur brenhiniaeth Jehofah

Mae ei ddeddfau yn rheoli symudiadau'r holl gyrff nefol yn ogystal â chylchoedd naturiol sy'n gwneud bywyd ar y ddaear yn bosibl

Mae rhai o'i ddeddfau sy'n gweithredu er ein lles yn gweithredu heb inni fod yn ymwybodol ohonynt

Ac yntau wedi creu dyn, fe wŷyr beth sydd ei wir angen arnom er mwyn mwynhau iechyd llawn, hir oes, a hapusrwydd

Mae ei orchmynion ynglyn â'n haddoliad a'n perthynas â'n cyd-ddyn yn gofyn inni ddewis, er mwyn dangos a ydym eisiau ufuddhau (*lp 98-105*)

Nid yw gorchmynion Duw yn ormesol; maent er ein lles (*Eseia 48:17*)

Maent yn cyfoethogi'n bywyd 'nawr ac yn ein helpu i ennill bywyd yn y dyfodol (*1Tim 4:8*)

Mae pobl yr holl genhedloedd yn cael y cyfle 'nawr i ddangos a ydynt yn wirioneddol eisiau brenhiniaeth Duw ym mhob agwedd ar fywyd; a ydynt am fyw o dan lywodraeth Duw?

Ef yw'r Creawdwr a'r Duw hollalluog, ac ni ellir rhwystro ei fwriad o fynegi ei awdurdod brenhinol drwy gyfrwng y Deyrnas, llywodraeth yn nwylo'i Fab, Iesu Grist

Mae inni barhau i fwynhau bywyd yn y fantol oherwydd mae'n wirionedd digyfnewid fod bywyd yn ddibynnol ar Dduw (*Dat 4:11*)

A wnawn ni'n bersonol geisio Teyrnas Dduw, a rhoi iddi ei lle dyladwy yn ein bywydau?

YN Y BREGETH AR Y MNYDD, DANGOSODD IESU SUT I GEISIO'R DEYRNAS (30 mun.)

(Gwahoddwch bawb i agor y Beibl a dilyn wrth i'r adnodau gael eu darllen)

Dysgodd Iesu ei ddisgyblion i weddio am y Deyrnas, a gofyn am iddi 'ddod' â grym dinistriol yn erbyn y drefn ddrwg (*Mth 6:10; w78 8/15 5-6; w89 8/15 12-13*)

Rhybuddiodd na fydd pawb sy'n proffesu ffydd yn ennill y Deyrnas (*Mth 7:21-23; w90 10/1 23-4; w78 12/1 14-15*)

Mae angen inni archwilio'n sefyllfa ein hunain, i fod yn sicr ein bod ni'n gwneud ewyllys y Tad

Er mwyn llwyddo i gael bywyd yn y Deyrnas nefol gyda Christ neu fywyd fel ei deiliaid ar y ddaear, rhaid meithrin y nodweddion sy'n boddhau Duw

Mae Duw yn edrych yn ffafriol ar y rhai sy'n ymwybodol o'u hangen ysbrydol, sy'n addfwyn, yn newynu am gyflawnder, yn drugarog, yn bur o galon, yn heddychlon (*Mth 5:3-9; w78 2/1 27-9; w78 2/15 8-10; w78 3/1 4-5*)

Daw hapusrwydd o feithrin y nodweddion hyn

I gael mynediad i'r Deyrnas, rhaid bod â pharch dwfn at gyfraith Duw—y cyfan ohoni (*Mth 5:17-20; w78 4/1 29-31; w86 10/15 8*)

Cyhyd ag yr oedd y Gyfraith a roddwyd gan Dduw drwy Moses mewn grym, 'roedd canlynwyr Iddewig i'w harfer hi ac annog ufudd-dod iddi

Rhaid inni beidio â bod fel Adda; rhaid peidio ag anufuddhau o fwriad yn unrhyw beth

Rhiad inni beidio chwaith â bod fel y Phariseaid, oedd â'u safonau cyflawnder eu hunain (*w90 10/1 12, 19 ¶14, 15*)

Nid digon ufuddhau i lythyren y Ddeddf; rhaid canfod ei hysbryd hi a sut i weithredu mewn harmoni â hi (*Mth 5:21, 22; w90 10/1 13 ¶12, 13; w78 4/15 21-2; w89 7/15 24-5*)

Heblaw gwneud yr hyn sy'n iawn, rhaid inni ddsygu caru'r hyn sy'n iawn (*Mth 5:27, 28; w90 10/1 13 ¶14; w78 5/15 28*)

Mae'r Beibl yn ein hannog ni i ddiogelu'r galon

Deiliaid bodlon sydd eu heisiau ar Jehofah, y rhai sy'n wirioneddol ddewis ei ffyrdd

Mae'n bwysig dysgu efelychu Duw wrth ddangos cariad (*Mth 5:43-48; w90 10/1 13 ¶12, 14, ¶18, 19; w78 7/1 5-6*)

Nid yw'r math hwn o gariad yn cael ei dagu gan falchder pan fo eraill heb fod yn werthfawrogi ond yn hytrach mae'n ceisio lles parhaol eraill, hyd yn oed y rhai sy'n gweithredu fel gelynion

Rhaid ceisio bod yn heddychlon â'n brodyr, eu caru o ddifrif, er mwyn gwasanaethu Duw yn dderbyniol (*Mth 5:23, 24; w78 5/1 29-30; wt 147 ¶7*)

(Adolygiad byr o Mathew pennod 5 seiliedig ar *w90 10/1 15 ¶20*)

Byddwyr yn ofalus rhag gosod gwerth ar ein gweithredoedd ar sail golwg allanol (*Mth 6:1-6, 16-18; w90 10/1 15-17; w78 7/15 30-1; w78 9/1 14-15*)

Mae cymhelliad yn ffactor pwysig—nid bod yn rhagrithiol, nid ceisio sylw i ni'n hunain, ond dod ag anrhydedd i Dduw

Mae Jehofah yn gweld beth sydd yn ein calonnau

Byddwn yn ysbrydol o ran meddylfryd, yn rhoi'r lle blaenaf i ystyriaethau ysbrydol, a pheidio â chael ein llygad-dynnu gan ddiddordebau materol (Mth 6:19-21; w90 10/1 18; w78 9/15 9; w89 7/15 13-14)

Mae hi'n bridol inni ofalu am ein hanghenion materol; ond nid yw'n addas dod yn gaethwas iddynt, a chan-iatau iddynt reoli'n bywydau (Mth 6:24; w78 9/15 10)

Meithrinwn ymddiriedaeth yn Nuw ac yn ei addewidion i fendithio'n hymdrechion i sicrhau anghenion bywyd (Mth 6:25-34; w90 10/1 18-19; w78 10/1 24-6)

MAE ANGEN I NI YMDRECHU I ENNILL Y DEYRNAS (9 mun.)

Er mwyn cadw'r rhai anhaeddiannol allan, mae Duw yn disgwyl i'r rhai sy'n mynd i mewn i'r Deyrnas dra-mwyo'r ffordd gul, a chanfod y porth cyfyng (Mth 7:13, 14; w90 10/1 23 ¶8, 9; w78 11/15 29-30)

Peidiwn â chymryd yr agwedd ei bod hi'n amhosibl; mae maddeuant i'w gael ar gyfer pechodau anfwriadol (Mth 6:12-15)

Yr hyn sydd ei angen yw ein bod yn wirioneddol garu'r hyn sydd yn iawn

Fe fydd hyn yn ein cymell ni i ymdrechu'n gyson, gan beidio ag ildio pan fo problemau'n codi (Mth 7:7, 8; w90 10/1 22 ¶6; w78 11/1 22)

Mae'n rhiad inni adeiladu'n tŷ ysbrydol ar ufudd-dod i athrawiaethau Iesu Grist (Mth 7:24-27; w90 10/1 24 ¶13-15; w78 12/15 12-13)

Mae hyn yn cynnwys efelychu Iesu wrth rannu newyddion da'r Deyrnas ag eraill (Mth 5:14-16; w90 10/1 24 ¶12; w78 3/15 11)

Mae hyn yn waith holl-bwysig; mae angen i eraill glywed; mae'r rhai sydd â rhan yn y gwaith yn medi gwob-rau gwerthfawr

Mae dyfodol gwyh o'n blaen; bendithion byd newydd Duw yw'r ateb i bob dymuniad cyflawn yn ein calonnau (Salmau 145:13, 16)

Fe fydd Jehofah yn darparu'r pethau hyn am ei fod eisiau inni eu cael (Mth 6:33)

Fe fydd yn bendithio'n hymdrechion i'w hennill nhw; y cwestiwn yw: 'Ydym ni'n wirioneddol eisiau nid yn unig fendithion Teyrnas Dduw ond hefyd ei gyflawnder?

Mae angen inni barhau i geisio Teyrnas Dduw drwy (1) weithredu'n ddiwyd i ddod i adnabod Jehofah, Brenin y Bydysawd, (2) magu cariad at ei ffyrdd, (3) gweithredu'r rhain yn ein bywydau, a (4) chymeradwyo Teyrnas Dduw i eraill

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)